# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA

## COFNODION - MEHEFIN 2015

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Nos Fercher, 17 Mehefin |
| **AMSER** | 7.00pm |
| **LLEOLIAD** | **Canolfan Bro Llanwnda** |

| | |
|---|---|
| 1. | **Croeso**<br>Jason Hunt, Nerys Evans, Michelle Williams, Elin Evans, Gwilym V Thomas, Gwilym V Williams. |
| 2. | **Ymddiheuriadau**<br>Rhys Owen, Tom Ellis, Aeron M Jones, Elwyn Jones,<br><br>Mi gadeiriodd Nerys Evans y cyfarfod gan nad oedd Neal Williams y Cadeirydd nac Rhys Owen yr Is-Gadeirydd yn bresennol.<br><br>Clerc i yrru nodyn at NW – ydy o'n fodlon parhau fel Cadeirydd yn sgil diffyg presenoldeb? |
| 3. | **Datgan Buddiant**<br>Dim i'w nodi |
| 4. | **Cadarnhau cofnodion 20 Mai 2015**<br>Cadarnhau fod y cofnod yn gywir. |
| 5. | **Materion i'w trafod:**<br><br>**a) Bagiau tarmac shavings rhwng Rhosgadfan a Waunfawr (MW)**<br>Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd yn adrodd ei fod wedi adrodd ar y tipio anghyfreithlon yma. Nodwyd fod y bagiau wedi mynd bellach.<br>**b) Plannu bylbiau (EJ)**<br>Clerc wedi gofyn am bris gan Twt a Thaclus, Groeslon a bydd yn cyflwyno pris yn y cyfarfod nesaf.<br>**c) Wal ger Mountain Rangers (NW)**<br>Adran Priffyrdd yn cadarnhau ei fod wedi anfon llythyr at Mr Spice yn gofyn iddo drefnu i drwsio y wal a nodi eu bod yn monitro cyflwr y wal yn y cyfamser.<br>**d) Cytundeb Clerc**<br>Clerc wedi drafftio cytundeb. Aelodau yn derbyn y cytundeb newydd. Bydd angen i'r Cadeirydd (NW) ei arwyddo yn y cyfarfod nesaf. |
| 6. | **Derbyn Adroddiadau**<br>a) **Loriau chwarel yn mynd drwy Rhosgadfan** – Clerc yn nodi ei fod wedi derbyn ymateb canlynol gan yr Adran Gynllunio –<br>*"Amgaeaf er eich cyfer, gopi o ganiatad diweddar chwarel Moel Tryfan, lle mae amod 6 wedi'i ddiwygio er mwyn cynyddu'r allbwn o 10,000 tunnell y flwyddyn i 20,000 tunnell. Mae'r amod hefyd yn cyfyngu'r nifer o lwythi i 4 y dydd, sef cyfanswm o 8 symudiad. I ategu'r hyn mae'r adran briffydd yn ei ddweud, nid oes unrhyw gytundeb i gyfyngu llwybrau cludiant ar hyd ffyrdd lleol."*<br>Aelodau yn datgan pryder fod y ffyrdd yn cael eu chwalu gan y loriau ac yn amau fod yr amodau hyn yn cael eu torri. Clerc i wneud ymholiadau ynglyn a trefniadau monitro cydymffurfiaeth gyda'r amodau hyn.<br><br>b) **Tir ger Sain** – Clerc yn adrodd ei bod wedi derbyn neges ffon gan y Swyddog Gorfodaeth Cynllunio yn nodi eu bod yn cael trafferth darganfod perchenog y tir. Yr ymateb gan Cyngor Gwynedd ddim digon da, mae'r mater hwn yn parhau ers blynyddoedd bellach, pryderon yn parhau. Mae |

| | |
|---|---|
| | angen bod yn fater agenda sefydlog nes mae'r mater wedi ei ddatrys.<br><br>c) **Pont Carreg Lwyd** – 3 contractwr wedi cael cyfarfod safle gyda Elwyn Jones. Ond, erbyn hyn mae'r Cwmni Rheilffordd yn son eu bod yn bwriadu gosod peipiau. Felly, penderfyniad i ddal ymlaen am ychydig nes wedi derbyn cadarnhad gan y cwmni rheilffordd ynglyn a beth maent yn bwriadu gwneud yno. |
| 7. | **Is-bwyllgorau**<br>Dim i adrodd arno. |
| 8. | **Adroddiad Ariannol (i'w gyflwyno yn y cyfarfod)**<br>Nododd y clerc fod llog yn isel iawn yn y cyfrif cadw. Gan ein bod yn cadw arian i un ochr ar gyfer gwaith y fynwent byddai'n syniad ceisio agor ISA i greu cronfa mynwent. Clerc i wneud ymholiadau i weld os oes gwell llog i'w gael. |
| 9. | **Materion Cynllunio**<br>1 Coedanna Terrace Rhosgadfan – dim sylw |
| 10. | **Gohebiaeth a chylchgronnau**<br>Rhannwyd flyer gyda manylion diweddaraf am ffordd osgoi Bontnewydd a dyddiadau sesiynau i'r cyhoedd. |
| 11. | **Materion Cyfarfod Nesaf**<br><br>**GVT –** Prosiect Arbed Ynni Carmel a Fron – oes bwriad i ymestyn i weddill yr ardaloedd?<br>**EE –** Cysgodfan yn ymyl Menai View, Dinas - cwyn fod golwg arno.<br>Pryd mae'r Cyngor yn torri gwair? dod allan o junction ffrwd cae du yn beryglus, gwair yn uchel iawn. Angen llythyr yn gyffredinol, amryw o lonydd yn beryglus oherwydd uchtwr y gwair ac mae'n culhau lonydd.<br>Maes Parcio Arman Dinas – lot o geir ar werth yno, oes caniatad i wneud hyn?<br>**NE –** Japanese knotweed ar damaid o dir wrth lwybr yn Rhostryfan (Glan Wern - lawr am Derwen Las wrth yr afon). Amau mai tir comin ydy o.<br>Cae wrth Pen y Ceunant Rhostryfan, Pwyllgor y neuadd sydd biau'r cau. Heb gael ei dorri ers tro a mae'r gwair yn uchel.<br>Hysbysfwrdd mynwent – angen cefn newydd.<br>**ME** - Rhosgadfan - Pen lon wen (mynd am Waunfawr) – mae cwnion fod lot o sbwriel.<br>**RO –** Gwrych yn llydan ac yn culhau y ffordd yn Dinas. Hefyd cefn station house ar y ramp i fyny i bont y rheilffordd, mae llwyni yma wedi mynd yn drwchus iawn ac yn tyfu dros y kerb/culhau y ffordd.<br>**GWLL** – Bus stop Rhos Isaf, dail poethion yn tyfu mewn ynddo, angen taclo.<br><br>**Dyddiad: 15 Gorfennaf 2015**<br>**Lleoliad: Ysgol Rhosgadfan** |